Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk

County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

28 Ionawr 2020

Annwyl Randdeiliad

Ar 23 Ionawr 2020, cytunodd Cabinet Cyngor Caerdydd ar gynigion i wneud y canlynol:

- drosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg i safle newydd ar y datblygiad tai newydd yn St Edeyrn (Safle Strategol G y Cynllun Datblygu Lleol)
- cynyddu capasiti'r ysgol o 105 lle i 210 lle.
- ehangu ystod oedran yr ysgol o 4-11 i 3-11 drwy greu darpariaeth feithrinfa yn yr ysgol gyda 48 lle rhan amser

Ystyriodd y Cabinet y cynigion a chyflwynwyd y gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg wedi hynny.

Nodwyd bod un gwrthwynebiad statudol wedi dod i law. Caiff y pryderon a godwyd eu crynhoi yn yr adroddiad gwrthwynebiadau ynghyd a'r ymateb gan y Corff Llywodreathol.

Mae'r adroddiad gwrthwynebiadau ar gael ar wefan yr ysgol ac ar wefan y Cyngor:

www.stmellonsprm.cardiff.sch.uk
www.cardiff.gov.uk/stmellonsciwproposals

Ystyriwyd bod ymateb y Corff Llywodreathol wedi ateb y materion a godwyd.

Roedd y Cabinet yn fodlon y bydd y cynnig yn:

- cynnig lleoedd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ac yn gwasanaethu datblygiad St Edern yng nghymuned Pentref Llaneirwg.

- lleihau cyfanswm nifer y lleoedd mewn ysgolion yn ardal Llanrhymni. Disgwylir y byddai llai o leoedd ysgol wag yn Llanrhymni yn cefnogi'r ysgolion cynradd eraill yn Llanrhymni i gysoni a chynyddu nifer eu disgyblion, gan wneud ysgolion yr ardal yn fwy cynaliadwy.

- cynnal safonau presennol addysg a darpariaeth yn yr ardal.

- cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r 'Cwricwlwm i Gymru' newydd ar gyfer dysgwyr (3 – 16 oed) y disgwylir iddo gael ei roi ar waith mewn ysgolion yng Nghymru o fis Medi 2022 gan gynnwys y cyfnod sylfaen llawn.

GWEITHIO DROS GAERDYDD, GWEITHIO DROSOCH CHI
Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Byddwn yn cyfathrebu â chi yn ôl eich dewis, dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

WORKING FOR CARDIFF, WORKING FOR YOU
The Council welcomes correspondence in Welsh, English or bilingually. We will ensure that we communicate with you in the language of your choice, as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

- galluogi mwy o ddisgyblion i fanteisio ar yr addysg a gynigir yn yr ysgol, sefyllfa gyllidebol well, mwy o gyfleoedd i ddisgyblion a staff, a chefnogaeth i'r ysgol gynnal a dal i adeiladu ar y safonau arbennig wrth i gwricwlwm newydd Cymru gael ei gyflwyno.

- galluogi sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol a fydd yn cynnig dull cyson o addysgu a chynllunio er mwyn datblygu parhad a chynnydd o ran dysgu plant o dair oed ymlaen, a chyfrannu at godi safonau trwy'r ysgol.

Bydd y newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2021.

Atgyfeirio Penderfyniad yr Awdurdod Lleol at Weinidogion Cymru

Dan adran 54 Deddf 2013 os yw'r cynigion wedi'u cymeradwyo gan awdurdod lleol, caiff y cyrff canlynol, cyn diwedd y 28 diwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod y penderfyniad, atgyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried;

i. Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
ii. Corff crefyddol priodol unrhyw ysgol yr effeithir arno;
iii. Corff Llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol sy'n destun y cynigion;
iv. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun y cynigion; a
v. sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno

Mae'r penderfyniad yn amodol ar y gweithdrefnau galw i mewn fel y nodir yng nghyfansoddiad y Cyngor sy'n galluogi adolygu penderfyniadau'r Cabinet. Os oes galw i mewn ar gyfer y penderfyniad, rhoddir gwybod i'r holl randdeiliaid.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn neu os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion ar 029 2087 2720 neu e-bostiwch ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Cofion

Richard Portas
Cyfarwyddwr Rhaglenni
Trefniadaeth Ysgolion